

Datganiad i'r wasg gan BeReasonable.wales
Gyfrinachol hyd nes 00:01 Dydd Llun, 17 Gorffennaf 2017

MAE YMGYRCH NEWYDD YN RHYBUDDIO Y BYDDAI CYNLLUNIAU LLYWODRAETH CYMRU I WAHARDD SMACIO YN GOLYGU Y BYDD MILOEDD O RIENI CYFFREDIN YN CAEL EU HYSTYRIED YN DROSEDDWYR

- Mae pŵl piniwn yn dangos bod tri chwarter o bobl yn dweud y byddai'r gwaharddiad yn golygu bod rhieni yn cael eu hystyried yn droseddwy'r
- Mae bron i wyth o bob deg yn poeni y byddai'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol dan ormod o bwysau
- Mae wyth o bob deg yn credu y dylai rieni, nid y Wladwriaeth, gael hawl i benderfynu ynglyn â smacio
- Mae saith o bob deg yn dweud bod weithiau angen rhoi smac i blentyn drwg
- Mae mam ifanc yn ymwrthod âg ymyryd heb eisiau gan y Wladwriaeth
- Mae ysgolhaig yn ymosod ar "broffesynoli magu plant".
- Mae cyfreithiwr plant profiadol yn rhybyddio "na ellir cyfiawnhau criminaleiddio gofal rheini".

LINC I FIDEOS A LLUNIAU

Mae'r ymgyrch y rhybuddio y byddai cynlluniau Llywodraeth Cymru i wahardd smacio yn enghraifft o "wladwriaeth faldodus" yn gor ddefnyddio pŵer, ac yn golygu y bydd miloedd o rieni cyffredin yn cael eu hystyried yn droseddwy'r.

Mae Byddwch Yn Rhesymol yn sefydliad llawr gwlad, am-mhleidiol. Bydd e'n lansio deiseb ar bereasonable.wales er mwyn gwrthwynebu'r argymhellion i ddileu'r amddiffyniad cyfreithiol ar sail cerydd rhesymol, gan olygu y gall rhieni wynebu dirwy neu ddedfryd o garchar.

Heddiw, mae'n cyhoeddu canlyniadau pŵl piniwn sy'n dangos nad oes cefnogaeth ymhlith rhieni na'r cyhoedd i gynlluniau Llywodraeth Cymru, gan eu bod yn credu y bydd hyn yn llethu'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol, gan olygu y bydd plant sydd mewn angen gwirioneddol yn cael eu gosod mewn perygl.

Mae'r ymgyrch yn rhybuddio y gall cynlluniau Llywodraeth Cymru greu'r argraff bod miloedd o rieni cyffredin sy'n disgyblu eu plant yn ddim byd gwell na phobl dreisgar sy'n cam-drin plant.

Mae'r ddeiseb yn datgan: "Rydw i'n gwrthwynebu cynlluniau Llywodraeth Cymru a fydd yn golygu bod rhieni sy'n smacio plant yn cael eu hystyried yn droseddwy'r". Gall trigolion Cymru sydd dros 16 oed arwyddo'r ddeiseb ar bereasonable.wales.

Ar ran yr ymgyrch, dywedodd Lowri Turner: "Mae'r bobl sy'n galw am y newid hwn yn defnyddio iaith eithafol a charmarweiniol. Maen nhw'n ceisio rhoi'r argraff bod smac ysgafn ar gefn y coesau gan fam gariadus yr un peth â churo plant. Oes unrhyw un wir yn credu nad yw'r math yna o gam-drin treisiol eisoes yn anghyfreithiol?"

"Os nad yw'r Llywodraeth yn gallu dweud y gwahaniaeth, ni ddylent fod yn gwneud cyfraith amdano."

"Mae ymchwil ein hymgyrch yn dangos bod 85% o oedolion Cymru wedi cael eu smacio fel plant a bod bron i 70% yn cytuno bod weithiau angen rhoi smac i blentyn drwg."

“Mae ymgyrchwyr sy’n cefnogi’r gwaharddiad yn gwybod nad yw’r cyhoedd yn eu cefnogi ac mae ffrwyth yr ymchwil ddiweddar yn profi hynny – mae’r cam hwn yn cael ei weld fel ymyrraeth ddiangen gan y Wladwriaeth.”

Roedd tri chwarter o’r mwy na 1,000 o Gymry a holwyd gan bôl piniwn ComRes yn credu na fyddai’r gwaharddiad yn helpu i amddiffyn plant sy’n agored i niwed. Pan ofynwyd iddynt ystyried y datganiad, “Bydd gwahardd smacio yn debygol o olygu bod rhieni rhesymol yn cael eu hystyried yn droseddwr, tra’n gwneud ychydig iawn i atal rhieni drwg rhag cam-drin plant”, roedd 74% yn cytuno, a dim ond un o bob 8 (12%) yn anghytuno.

Gwelwyd hefyd bod nifer tebyg yn gwerthwynebu gwneud smacio yn drosedd. Pan ofynwyd a oedden nhw’n credu y dylai smac gan rhiant fod yn drosedd, roedd un o bob 10 (11%) oedd yn cytuno, a thri chwarter (76%) yn anghytuno.

Roedd mwy na 7 o bob 10 (72%) yn cytuno gyda’r datganiad, Rwy’n cefnogi deddfau yn erbyn cam-drin plant, ond dydi smacio ddim yr un peth a cham-drin.

Yn 2015 datganodd y Gweinidog Plant ar y pryd, Leighton Andrews, y byddai diddymu amddiffyniad cerydd rhesymol yn crimineiddio nid yn unig smacio, ond unrhyw gyffyrddiad corfforol rhwng plentyn a rhiant yng Nghymru i bwrpas cadw disgyblaeth. Galla’r cyffyrddiad ysgafnaf gan berson arall ei gymryd fel ymosodiad, er enghraifft os mae riant yn codi o’r llawr plentyn sy’n camymddwyn.

Wrth siarad yn lansiad yr ymgyrch, rhybuddiodd Dr Ashley Frawley, arbenigwraig cymdeithaseg a pholisi cymdeithasol o Brifysgol Abertawe, y gallai dileu’r amddiffyniad ar sail ‘cerydd rhesymol’ agor y llifddorau i filoedd o achosion pitw yn cael eu hadrodd i’r heddlu a’r gwasanaethau cymdeithasol – gwasanaethau sydd eisoes dan wasgedd mawr.

Mae’r cyhoedd yn cytuno gyda hi, gyda bron i 8 o bob 10 (77%) yn pryderu y bydd gwahardd smacio yn golygu y bydd yr heddlu a’r gwasanaethau cymdeithasol yn boddi dan nifer yr achosion, gan olygu y byddan nhw’n ei chael yn anodd i stopio cam-drin gwirioneddol. Dim ond un o bob 8 (12%) oedd yn anghytuno â hyn.

Dywedodd Dr Frawley, “Am ryw reswm, mae magu plant yn cael ei drin fel sail pob problem yn ein cymdeithas. Mae pwysau mawr ar rieni ar hyn o bryd, does dim angen yr ofn ychwanegol o gael eu gwahanu oddi wrth eu plant oherwydd mae rhywun yn y Llywodreath yn digwydd anghytuno gyda’r ffordd mae nhw magu eu plant.”

“Fwyfwy, mae rhieni yn darged i ymyrryd oherwydd y gred ddi-sail mai dim ond pobl broffesiynol sy’n gallu gwneud y swydd gan ddefnyddio lluo o nodau perfformiad. Mae hyn yn difetha natur aflêr, llawen a rhyfeddol bywyd teuluol a’i wneud yn destun goruchwyllo gan y Wladwriaeth.”

“Mae angen i Lywodraeth Cymru ymwrthod â’r temtasiwn i ymyrryd yn y ffordd mae rhieni yn magu eu plant. Mae newid y ddeddf yn ymyrraedd ddifrifol mewn bywyd teuluol, ac yn hollol ddiangen, gan fod y gyfraith eisoes yn amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin.”

“Bydd dileu’r amddiffyniad ar sail cerydd rhesymol yn agor y llifddorau i gannoedd, neu filoedd o gwynion newydd i’r heddlu a’r gwasanaethau cymdeithasol. Bydd hyn yn siwr o fynd â’u sylw oddi ar achosion gwirioneddol o gam-drin, ac yn arwain at ganlyniadau trist iawn.”

Gwnaeth Colin Harris, sydd wedi bod yn gyfreithiwr am 45 mlynedd, gan gynnwys yn agos i 30 mlynedd ar banel plant Cymdeithas y Gyfraith y sylwadau:

“Os daw smacio yn drosedd, beth wedyn a ddigwydd i'r teulu wedi i'r plentyn roi tystiolaeth yn y llys a'r fam yn cael ei dedfrydu yn euog a derbyn cosb? Oes disgwyl iddynt ddychwelyd adref fel pe na bai unrhyw beth wedi digwydd? Pwy sy'n gyfrifol am ddod a'r darnau toredig at ei gilydd ar ôl y fath ergyd?”

“Mae'r berthynas rhwng rhiant a phlentyn yn unigryw ac yn dod a chyfrifoldebau unigryw. Ni ddylai gwleidyddion greu chwedl gyfreithiol drwy drin disgyblaeth gyffredin gan rieni fel ymosodiad troseddol.”

“Mewn 30 mlynedd o weithio gyda theuluoedd ar chwâl, rwyf wedi gweld y difrod sy'n dilyn diffyg cariad, ymrwymiad a chytundeb. Rwyf hefyd wedi gweld y drwg sy'n dod o ddiffyg disgyblaeth pan fydd plant yn camymddwyn.”

“O fewn cyd-destun arbennig y berthynas rhwng rhiant a phlentyn, mae lle i riant benderfynu ar gerydd rhesymol ac addas. Mae'r gyfraith wedi parchu hyn fel rhan o'r awdurdod sydd gan rieni wrth ofalu am eu plant. Pe tansailir awdurdod rhieni, gwelir plant di-reol yn tyfu yn oedolion di-reol, a hynny ar bris uchel iddynt eu hunain ac i gymdeithas.”

“Rwyf wedi ymdrin â'r gyfraith am ddegawdau. Ni ellir cyfiawnhau troi yn drosedd smac a roir mewn cariad fel rhan o ddisgyblaeth rhiant.”

“Ychwanegodd Lowri Turner, mam i un: “Tynhawydd y ddeddf bresennol yn 2004. Mae pobl yn deall y ddeddf ac mae'n ymddangos ei bod yn gweithio. Mae deddfau da a chryf gydan ni'n barod, sy'n amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin.

“Mae gan y Cynulliad bwerau newydd, ond ai dyma'r ffordd orau i'w defnyddio? Ydy'r holl wleidyddion yn credu mewn gwirionedd mai dyma'r mater pwysicaf sy'n wynebu Cymru heddiw?”

“Dyw Llywodraeth Cymru ddim yn mynd i wella lles plant wrth gymryd camau fydd yn golygu bod rhieni da yn cael eu hystyried yn droseddwyr, ac wrth gynyddu llwyth gwaith gweithwyr cymdeithasol a'r heddlu.”

Wrth gloi, dywedodd: “Mae neges y pŵl piniwn hwn i Lywodraeth Cymru yn hollol glir – peidiwch dyfeisio ffyrdd newydd o gosbi rhieni, ond gadewch iddyn nhw fynd ymlaen gyda'r gwaith o fagu'r genhedlaeth nesaf.”

Am wybodaeth pellach, cysylltwch ag Alistair Thompson o Media Intelligence Partners ar 0797 016 2225.

DIWEDD

Notes to Editors:

The Be Reasonable campaign is a grassroots campaign of parents and supportive groups with a single goal: to discourage the Welsh Government from pursuing its pledge to outlaw reasonable chastisement of children by their parents.

First Minister Carwyn Jones first announced the smacking ban in May 2016 when he set out his priorities for the first 100 days of the Welsh Government. He said, “we will take forward, on a cross-party basis, legislation that will remove the defence of reasonable chastisement”.

Welsh Assembly Record of Proceedings, 18 May 2016,

<http://www.assembly.wales/en/bushome/pages/rop.aspx?meetingid=3593&language=en&assembly=5&c=Record%20of%20Proceedings&startDt=18/05/2016&endDt=18/05/2016>

In a statement on 27 June 2017 he said there will be “consultation over the next 12 months” and a Bill introduced in the Assembly year beginning autumn 2018.

Welsh Assembly Record of Proceedings, 27 June 2017,

<http://www.assembly.wales/en/bushome/pages/rop.aspx?meetingid=4300&language=en&assembly=5&startDt=12/06/2017&endDt=03/07/2017>

In June 2016 Communities and Children Secretary Carl Sergeant said: “Let’s be very clear here: this isn’t about legislation to criminalise parents. What we want to do here is give people the opportunity to have positive parenting experiences.”

Welsh Assembly Record of Proceedings, 22 June 2016,

<http://www.assembly.wales/en/bushome/pages/rop.aspx?meetingid=3611&language=en&assembly=5&c=Record%20of%20Proceedings&keyword=reasonable%20chastisement>

In January 2015 the Minister for Public Services and former Children’s Minister

Leighton Andrews said: “The effect of amendments 46 to 67 is not only to criminalise smacking, but also any other touching of a child in Wales by a parent for the purpose of administering discipline. The offence of a battery is committed where a person intentionally or recklessly inflicts unlawful violence on another. Any touching of another person, however slight, may amount to a battery. For example, a parent who forcibly lifts a misbehaving child would be guilty of battery.”

Communities, Equality and Local Government Committee, 22 January 2015,

<http://www.senedd.assembly.wales/documents/s36001/22%20January%202015.pdf>

The ComRes poll tables are available here:

<http://www.bereasonable.wales/wpcontent/uploads/2017/07/Wales-Parenting-Poll-22-Feb-2017.pdf>

The poll was conducted by ComRes which interviewed 1019 Welsh adults online between 13th and 25th January 2017. Data were weighted to be demographically representative. ComRes is a member of the British Polling Council and abides by its rules.